



Health and Care
Research Wales
Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth
Ymchwil Iechyd a
Gofal Cymru

Cymhlethdodau a chostau i'r GIG oherwydd all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol: adolygiad cyflym

Mawrth 2025



Ymchwil Iechyd
a Gofal **Cymru**
Health and Care
Research **Wales**



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government



Technoleg Iechyd Cymru
Health Technology Wales

Cymhlethdodau a chostau i'r GIG oherwydd all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol: adolygiad cyflym

Rhif yr adroddiad - RR0039 (Mawrth 2025)
Report number - RR0039 (March 2025)

CRYNODEB GWEITHREDOL EXECUTIVE SUMMARY

Beth yw Adolygiad Cyflym? What is a Rapid Review?

Mae ein Hadolygiadau Cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth i hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon gan gadw sylw at ragfarn ar yr un pryd.

Our rapid reviews (RR) use a variation of the systematic review approach, abbreviating or omitting some components to generate the evidence to inform stakeholders promptly whilst maintaining attention to bias.

Ar gyfer pwy mae'r Adolygiad Cyflym hwn? Who is this Rapid Review for?

Awgrymwyd cwestiwn yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru a'i fwriad yw helpu i lywio penderfyniadau polisi ynghylch effaith cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth ddewisol breifat dramor ar ofal dilynol GIG y DU. Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried canlyniadau a phwysau anfwriadol ar wasanaethau presennol y GIG ac effaith bosibl ar anghydraddoldeb iechyd.

Background / Aim of Rapid Review Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

'All-dwristiaeth feddygol' yw pan fydd pobl yn dewis mynd i gael triniaeth feddygol mewn gwlad wahanol i'r un y maent yn byw ynddi. Mae pryderon y gallai pobl sy'n teithio dramor i gael llawdriniaeth fod mewn perygl o gymhlethdodau pan fyddan nhw'n dychwelyd adref. Nod yr adolygiad hwn oedd nodi'r holl astudiaethau sy'n disgrifio'r effaith a gaiff cleifion y mae angen gofal dilynol arnynt ar Wasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) y DU yn sgil all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol, a hynny drwy ateb y cwestiynau canlynol:

1. Beth yw cymhlethdodau tymor hir a thymor byr all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol sy'n cael eu trin yn y DU gan y GIG?
2. Beth yw'r costau i'r GIG o drin cymhlethdodau a gofal dilynol oherwydd all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol?
3. Pa fanteision sydd i'r GIG yn sgil all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol?

Results of the Rapid Review Canlyniadau'r Adolygiad Cyflym

Pa mor ddiweddar yw'r sylfaen dystiolaeth

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at fis Rhagfyr 2024. Roedd yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys wedi'u cyhoeddi rhwng 2007 a 2024. Adroddodd y rhan fwyaf o astudiaethau ar gleifion a welwyd rhwng 2011 a 2024.

Extent of the evidence base Graddfa'r sail dystiolaeth

- Nodwyd 37 o astudiaethau (roedd 35 yn gyfresi achosion neu'n adroddiadau achos a ddisgrifiodd gleifion a gafodd driniaeth yn y GIG am gymhlethdodau oherwydd eu llawdriniaeth dramor ac roedd 2 yn arolygon ymysg llawfeddygon cosmetig yn y DU); roedd 19 yn ymwneud â llawdriniaeth colli pwysau, 17 â llawdriniaeth gosmetig ac 1 â llawdriniaeth ar y llygaid.
- Roedd 5 astudiaeth a oedd yn ymwneud â thwristiaeth llawdriniaeth colli pwysau, 8 yn ymwneud â thwristiaeth llawfeddygaeth gosmetig ac 1 yn ymwneud â thwristiaeth llawdriniaeth ar y llygaid yn cynnwys dadansoddiad o'r costau i'r GIG o drin cymhlethdodau.

Canfyddiadau allweddol - trosolwg

- Roedd y gyfres achosion ac adroddiadau achos yn cynnwys cyfanswm o 655 o gleifion a gafodd eu trin gan y GIG rhwng 2006 a 2024 am gymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth yn sgil all-dwristiaeth am lawdriniaeth colli pwysau (n=385), llawdriniaeth gosmetig (n=265) a llawdriniaeth ar y llygaid (n=5).
- Roedd 90% o gleifion yn fenywod, a'r oedran cyfartalog oedd 38 oed (ystod 14 i 69 oed). Y gyrchfan fwyaf cyffredin ar gyfer llawdriniaeth oedd Twrci (61%).
- Ar gyfer llawdriniaeth colli pwysau, y math mwyaf cyffredin oedd gastrectomi lawes (43%).
- Ar gyfer llawdriniaeth gosmetig, y driniaeth unigol fwyaf cyffredin a gafwyd dramor oedd abdominoplasti (25%), er bod tystiolaeth bod cleifion yn cael sawl llawdriniaeth ar yr un pryd.

Canfyddiadau allweddol ar gyfer cwestiwn 1

- Nid oedd lefelau adrodd yn glir bob amser, ac nid oedd yn bosibl archwilio cymhlethdodau tymor byr a thymor hir ar wahân.
- Ar gyfer twristiaeth llawdriniaeth colli pwysau, y symptomau mwyaf cyffredin oedd poen yn yr abdomen, chwydu, anallu i lyncu a diffyg maeth. Gollyngiad gastrig oedd y diagnosis mwyaf cyffredin. I dros draean o gleifion a oedd yn ymddangos gyda chymhlethdodau, roedd angen i'w llawdriniaethau gael eu dadwneud neu eu diwygio.
- Ar gyfer twristiaeth llawfeddygaeth gosmetig, y cymhlethdodau mwyaf cyffredin oedd haint a chlwyfau llawfeddygol yn ailagor. Y driniaeth fwyaf cyffredin oedd gwrthfotigau geneuol neu fewnwythiennol.
- Yn gyffredinol, ni nodwyd unrhyw farwolaethau gan unrhyw astudiaeth ond roedd angen o leiaf un ymyriad neu ymchwiliad o dan anesthetig lleol neu gyffredinol ar ychydig dros hanner y cleifion a oedd yn ymddangos gyda chymhlethdodau. Gall hyn arwain at driniaeth gymhleth a hir a chyfnodau hir yn yr ysbyty.

Canfyddiadau allweddol ar gyfer cwestiwn 2

- Roedd costau i'r GIG yn sgil all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol yn amrywio o £1,058 i £19,549 y claf yn ôl prisiau 2024. Roedd sicrwydd y dystiolaeth ar gyfer costau yn isel iawn.
- Adroddwyd bod y costau uchaf yn ymwneud â chyfnodau hirach yn yr ysbyty a thriniaeth lawfeddygol, ond nid oedd yn glir a oedd yr holl achosion perthnasol a'r holl gostau cysylltiedig wedi'u nodi yn yr astudiaethau.

Ni welsom unrhyw astudiaethau a atebodd gwestiwn 3.

Goblygiadau'r Ymchwil a Bylchau yn y Dystiolaeth

- Nid ydym yn gwybod o hyd faint o bobl sy'n byw yn y DU sy'n mynd dramor i gael llawdriniaeth ddewisol na faint o bobl sy'n cael cymhlethdodau wedyn. Heb y data hwn, ni allwn ddeall yn llawn faint o risg y mae pobl sy'n mynd am lawdriniaeth dramor yn ei chymryd.
- Mae angen dull systematig o gasglu gwybodaeth am yr effaith ar GIG y DU yn sgil trin cymhlethdodau sy'n deillio o all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol a chostau cysylltiedig. Mae graddfa'r broblem yng Nghymru bron yn gyfan gwbl anhysbys.
- Dylai astudiaethau yn y dyfodol adrodd ar fanylion demograffig, gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol.
- Ni chynhaliwyd unrhyw astudiaethau mewn gofal sylfaenol, felly ni wyddom beth yw effaith all-dwristiaeth feddygol am lawdriniaeth ddewisol ar wasanaethau meddygon teulu na gwasanaethau cymunedol.
- Nid oes tystiolaeth sy'n cymharu iechyd tymor byr na thymor hir pobl sy'n teithio dramor i gael llawdriniaeth ddewisol â'r rhai sy'n cael eu trin yn y DU (naill ai yn y GIG neu'n breifat). Byddai cymhariaeth uniongyrchol yn caniatáu amcangyfrif gwell o gostau a buddion i'r GIG.

Goblygiadau o ran Polisiâu ac Arferion

- Gellid cyfiawnhau ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth ac ymyriadau i hysbysu aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n ystyried mynd dramor i gael llawdriniaeth am y posibilrwydd o gymhlethdodau. Mae awgrymiadau manwl ynghylch y cynnwys mwyaf priodol i'w ddosbarthu wedi'u cynnwys yn yr adroddiad llawn. Dylai'r rhai sy'n bwriadu cael triniaeth feddygol dramor fod yn ymwybodol o ba gymhlethdodau y mae'r GIG yn gyfrifol am eu trin, a'r costau y gall y claf fod yn bersonol atebol amdanynt gan gynnwys triniaeth nad yw'n driniaeth frys.
- Gallai fod yn fuddiol cyflwyno'r angen am yswiriant i dalu costau cymhlethdodau posibl twristiaeth feddygol.

- Mae angen sicrhau bod mynediad at wasanaethau rheoli pwysau, gan gynnwys llawdriniaethau colli pwysau, ar gyfer pobl sy'n bodloni meini prawf y GIG, yn cael ei wella.

Ystyriaethau economaidd

- Credwyd bod effaith economaidd all-dwristiaeth feddygol ar y GIG yn amrywio'n helaeth am fod twristiaid meddygol yn ffurfio grŵp heterogenaidd, ar draws oedrannau, rhywiau, a chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth a nodwyd yn yr adolygiad hwn yn awgrymu bod menywod yn fwy tebygol o geisio llawdriniaeth ddewisol dramor, yn enwedig llawdriniaeth gosmetig.
- Mae llawdriniaeth gywirol a gofal dilynol yn dilyn gofal dewisol dramor yn rhoi pwysau ariannol a materol ar y GIG. Nid yw'n glir ar hyn o bryd i ba raddau y gallai yswiriant neu wella ymwybyddiaeth o ganlyniadau andwyol posibl liniaru'r rhain.

Aseswyd sicrwydd dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn gan ddefnyddio dull GRADE (Sgôr Argymhelliad, Asesiad, Datblygiad ac Arfarniad). (<https://www.gradeworkinggroup.org/>) .

The certainty of evidence has been assessed using the GRADE (Grading of Recommendation, Assessment, Development and Evaluation) approach (<https://www.gradeworkinggroup.org/>).